Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2011

Braint ac anrhydedd oedd cael bod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr dros y Flwyddyn Ysgol 2010-11ac i gael y cyfle i ysgrifennu'r rhagair i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Ar ran y Corff Llywodraethol rwyf yn gyntaf yn dymuno llongyfarch Mr Paul Mainwaring, y Pennaeth, a holl staff yr ysgol, yn athrawon a staff cynorthwyol, ar flwyddyn arall llwyddiannus a chynhyrchiol, yn academaidd ac yn allgyrsiol.

Yn rhinwedd fy swydd yn Gadeirydd y Llywodraethwyr cefais y pleser arbennig o ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac i fod yn bresennol mewn nifer o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau.

Fel Corff Llywodraethol rydym yn gwbl ymwybodol o'r ymrwymiad llwyr a'r brwdfrydedd a ddangosir gan yr athrawon a'r staff cefnogi a hefyd yr arweinyddiaeth gadarnhaol a ddangosir gan y Pennaeth a'r Tîm Rheoli. Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth y mae'r ysgol yn ei dderbyn o ran cyllid, deunyddiau ac o ran amser ac arbenigedd unigolion amrywiol. Mae'r gefnogaeth barhaus a roddir gan rieni, neiniau a theidiau a chyfeillion yr ysgol yn cael ei werthfawrogi ac rydym yn diolch o galon amdano. Mae'r rheolwr a'r staff yn Swyddfa Cefnogi Ysgolion Cwmaman a'r Cylch hefyd wedi darparu gwasanaeth gwerthfawr ar gyfer y Corff Llywodraethol ac ar gyfer yr ysgol ac rydym yn hynod werthfawrogol o hyn.

I gloi, hoffwn ddiolch i fy nghyd-lywodraethwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gefnogi'r ysgol. Rwy'n siŵr y bydd y flwyddyn academaidd newydd brofi'r un mor gyffrous, a hefyd yn gadarnhaol yn y gwelliant parhaus a welir yn natblygiad yr ysgol a'i chyflawniadau. Rwy'n hyderus y bydd yr "Adeilad Newydd" o ran adnoddau a chyfleusterau gwell o fudd i'r Ysgol a'r Gymuned ehangach ac rwy'n edrych ymlaen at ei gwblhau ym mhen y rhawg.

J. Robert Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol.

Ysgol Gynradd Tycroes Primary School

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

Medi 2010 - Gorffennaf 2011

Nifer y Disgyblion

Ym mis Medi 2010 roedd 160 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol. Bu i'r nifer hwn gynyddu'n gyson yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm o 179 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol erbyn tymor yr haf.

Ar ddiwedd tymor yr haf, cyrhaeddodd 22 o ddisgyblion ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, ac yn gadael yr ysgol i barhau â'u gyrfa addysgol yn y sector uwchradd. Trosglwyddodd pob un o'r disgyblion y flwyddyn hon i Ysgol Dyffryn Aman.

Staffio

Erys y staffio fel o'r blaen heb unrhyw athrawon na staff cymorth newydd yn ymuno â'r ysgol. Mynychodd Mr Rob Randel Gwrs Sabothol Cymraeg yng Ngholeg y Drindod yn ystod tymor y gwanwyn.

Penodwyd Mrs Laura Thomas i ddysgu Blwyddyn 6 yn ei absenoldeb. Cafodd yr ysgol gyfanswm o £9,500 drwy'r Cynllun Sabothol Cymraeg i dalu am athrawon cyflenwi ac fe'i defnyddiwyd i gyflogi Mrs Carol Roberts a Miss Lowri Thomas i ddarparu amser CPA, cymorth wrth ddarllen a chymorth MAT.

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolwg

Bu'r Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys Mr Mainwaring, Mrs Rees, Mrs Nerys Timothy Davies a Miss Val Davies yn cyfarfod bob pythefnos yn rheolaidd. O ganlyniad, rhannwyd y cyfrifoldeb ymhlith y 4 aelod o staff ym meysydd Adolygiad Hunanasesu, Monitro, Gwerthuso ac Adrodd a chodi safonau. Dyma un o dargedau'r Cynllun Gweithredu Wedi Arolwg.

Mae'r holl staff, staff addysgu a staff cymorth, wedi mynychu hyfforddiant rheoli ymddygiad i gwrdd â gofynion y Cynllun Gweithredu Wedi Arolwg. Hefyd, bu Laura Thomas a minnau ar gwrs deuddydd i gael hyfforddiant yn nulliau Ymyriad Corfforol.

Cyswllt â'r Rhieni

Mae cyswllt gyda rhieni yn darged yn dilyn Arolygiad Estyn ac roedd yn brif ffocws y llynedd.

Roedd angen contract Cartref / Ysgol a lluniwyd un a chael cytundeb ar y cynnwys yn eithaf cyflym. Mae'r holl rieni a'r disgyblion yn darllen ac yn llofnodi'r cytundeb hwn ac mae'n ofynnol i holl ddisgyblion newydd yr ysgol ei lofnodi wrth gychwyn yn yr ysgol. Mater pwysig arall oedd cynnal CRhA gref ac rwy'n falch i ddweud bod y GRhA bresennol wedi bod yn ein cefnogi yn gyson ers ei sefydlu fis Medi diwethaf. Mae'r aelodau yn frwdfrydig ac wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau, a'r uchafbwynt oedd y Noson Chwaraeon a gynhaliwyd yn ystod yr haf.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r gwasanaeth tecstio 'Teachers2parents' i anfon neges destun a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy eu ffonau symudol. Mae hyn wedi profi'n ffordd bwysig o gyfathrebu a sefydlu cysylltiadau gyda rhieni. Bu'n effeithiol iawn yn ystod y cyfnod pan oedd eira ar lawr gwlad ac angen cael y wybodaeth ddiweddaraf at y rhieni am newid trefniadau a chau'r ysgol. Mae'r ymateb cadarnhaol iawn gan rieni wedi tynnu sylw at y ffordd y bu iddo greu ymdeimlad o gefnogaeth a chymuned.

Rydym wedi diweddaru ein gwefan hefyd ac mae hyn yn profi i fod yn ffordd effeithiol iawn o gyfathrebu â rhieni a sicrhau bod cysylltiadau yn agored ac yn gadarnhaol. Unwaith eto mae hwn yn offeryn grymus sydd yn gweithredu ar unwaith ac yn hyblyg gyda gwybodaeth yn cael ei rannu yn syth ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Po fwyaf yr aiff y rhieni i'r safle, mwyaf fydd yr effaith a gaiff, a bydd y rhieni'n cael eu hysbysu'n well.

Mentrau'r Ysgol

Ymwelodd Mrs Wendy Jones a minnau Ysgol Y Ffin yng Nghas-gwent ac Ysgol Llansawel i arsylwi arfer da yn y defnydd o'r cynllun llythrennedd 'Read, Write, Inc'. Cafodd pob aelod o'r staff 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar 'Read, Write, Inc' er mwyn rhoi cychwyn ar y cynllun. Gwahoddwyd rhieni i noson lansio'r cynllun gydag Ymgynghorydd Saesneg Sir Gaerfyrddin Christine Ashcroft yn bresennol. Cafodd y cynllun ei weithredu yn nhymor yr haf.

Mae Ysgol Dyffryn Aman yn rhan o'r cynllun gydag Ysgol Tŷcroes i gynnal cyswllt ag ysgolion yn Indonesia. Gwnaed y cyswllt cychwynnol pan aeth Mr Mainwaring ar ymweliad â West Java ym mis Hydref 2010. Yn eu tro, daeth 3 o gynrychiolwyr i Rydaman rhwng y 13eg a'r 19eg o Chwefror. Cawsom gyfle i groesawu'r tri chynrychiolydd i'r ysgol ar Ddydd Llun, 14 Chwefror. Cafwyd cymorth Mrs Sarie Brice, un o'n rhieni ac yn wreiddiol o Indonesia, fel cyfieithydd ac rydym yn gwerthfawrogi ei hymdrechion hi yn fawr iawn gan y bu hyn yn gymorth amhrisiadwy wrth i ni groesawu'r tri a sicrhau bod eu harhosiad gyda ni yn llwyddiannus iawn. Mae cynllun 3 blynedd wedi ei lunio a'i lofnodi ac wedi ei dderbyn gan y Cyngor Prydeinig.

Materion yn ymwneud â'r Cwricwlwm

Cafwyd ymweliad gan Mr Clive Phillips, Arolygydd Estyn, i weld 'arfer sy'n arwain y sector' mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 1. Yr oedd yn y broses o baratoi adroddiad ar gyfer Estyn ac awgrymwyd iddo fod gan Ysgol Tycroes 'arfer da' rhagorol a'r disgyblion yn cyrraedd safonau uchel mewn llythrennedd.

Gwahoddwyd Mrs Rhian Thomas a Mrs Nerys Timothy Davies i annerch Cynhadledd y Penaethiaid a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Aberafan ym Mhort Talbot i amlinellu eu strategaethau a'u dulliau addysgu wrth hyrwyddo Llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen.

Anghenion Addysg Arbennig

Ar hyn o bryd mae gennym 30 o ddisgyblion ar y Gofrestr Anghenion Ychwanegol heb unrhyw ddisgyblion â datganiad yn yr ysgol. Diwygiwyd y Polisi ADY a'i ddiweddaru i gyflawni'r holl ofynion. Trefnodd Mrs Lynwen Lewis, ein cydlynydd AAA, nifer o gyfarfodydd cynllunio gyda'n Seicolegydd Addysg er mwyn sicrhau bod holl anghenion ein disgyblion yn cael sylw. Mae'r ffeiliau Anghenion Dysgu Ychwanegol, y CAU, canlyniadau'r profion statudol a'r gwerthusiadau yn ogystal â gwybodaeth am bob disgybl wedi cael eu diweddaru a'u cwblhau. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Dyffryn Aman fel rhan o'r broses pontio. Mae'r Ymgynghorydd Iaith a Lleferydd ynghyd â'r Seicolegwyr Addysg wedi ymweld â'r ysgol i gynorthwyo nifer o blant. Cynhaliwyd adolygiad pontio ar gyfer un disgybl yn Ysgol Tycroes. Mae Mrs Lewis yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â disgyblion ag ADY yn ei lle ac yn gyfredol. Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn estyn eu diolch i Mrs Lewis am ei holl waith caled. Mae Mr Mainwaring yn mynychu Panel Cyfarwyddwyr ADY.

Polisïau Ysgol

Mae nifer o Bolisïau Ysgol wedi cael eu hadolygu yn unol ag amserlen flynyddol yr ysgol ar gyfer adolygu polisïau, ac yn unol â chyfarwyddebau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd driliau tân yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac ar bob achlysur bu i bawb ymgilio o'r adeilad yn llwyddiannus mewn cyfnod byr o amser. Mae'r larymau tân a'r diffoddwyr yn cael eu profi yn rheolaidd ac yn derbyn gwasanaeth cynnal a chadw'n gyson. Cafodd holl offer trydanol yr ysgol hefyd eu profi gan beiriannydd cymwysedig.

Mae'r byrddau cinio yn cael eu profi ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn flynyddol gan beiriannydd SICO.

Disgyblion ag Anabledd

Mae'r Cynllun Hygyrchedd a ysgrifennwyd ar gyfer y cyfnod 2007 - 2010 wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Cyfle Cyfartal

Yn unol â pholisi cynhwysiad yr ysgol, mae pob disgybl yn cael y cyfle i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r gweithgareddau o fewn yr ystafell ddosbarth yn cael eu gwahaniaethu i gwrdd ag anghenion disgyblion unigol fel eu bod yn gallu cael mynediad cyflawn i bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cronfa'r Ysgol

O ganlyniad i haelioni Cymdeithas Rieni Athrawon. (£2,000) a'r Pwyllgor Cymorth Lleol (£200) roedd yr ysgol wedi gallu prynu Sgrin Plasma Smart rhyngweithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd wedi prynu'r rhaglen 'Whizz Mathemateg' er mwyn cefnogi disgyblion yn yr ysgol a hefyd yn y cartref.

Rhoddion i Elusennau

Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o roddion i elusennau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain wedi cynnwys y swm o **£188.00** offrwm y Gwasanaeth Diolchgarwch y Cynhaeaf i'r '**Carmarthenshire Children's Centre**, **£452.00** ar gyfer **Cronfa Red Nose Day, £125.00** i **Gronfa Plant Mewn Angen y BBC,** a **£145.55** i **Ymddiriedolaeth Elusennol Ray Gravell.**

Mae'r ysgol unwaith eto wedi cymryd rhan yn y prosiect rhyngwladol "OperationChristmas Child" a rhoddwyd bocsys esgidiau yn llawn anrhegion Nadolig i'r apêl.

Gweithgareddau ym myd y Campau (Ionawr 2011- Mawrth 2011)

Bob dydd Iau ers mis Ionawr bu Angharad James yn arwain sesiynau dawns wrth baratoi ar gyfer y gystadleuaeth Dawnsio Creadigol yn Eisteddfod yr Urdd. Mae disgyblion Blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cymryd rhan. Bu bechgyn Blwyddyn 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn nhwrnamaint pêl-droed 6 bob ochr Dinas Abertawe ym Mharc Y Scarlets. Aeth disgyblion Blwyddyn 4 i 'Call of the Wild' - canolfan breswyl. Roeddynt yn aros dros nos a chynhaliwyd gweithgareddau megis adeiladu tîm, dringo a cherdded mynydd. Bu disgyblion Blwyddyn 5 ym 'Manor Adventure', lle bu iddynt aros dwy noswaith. Cawsant weithgareddau megis adeiladu rafft, ffensio ac abseilio. Bu deg disgybl ym Mlynyddoedd 4 a 6 yn cymryd rhan yn Decathlon Campau'r Ddraig. Cawsant brofi amrediad o weithgareddau, gan gynnwys taflu'r waywffon, naid uchel, taflu at darged a'r naid driphlyg. Bu Bethany Randall yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yng Nghaerfyrddin gan orffen yn yr ail safle. Bu hefyd yng nghystadleuaeth gymnasteg Brianne a chyrraedd y brig - y safle cyntaf. Mae hi, erbyn hyn, wedi ei dewis i gynrychioli rhanbarth Dyfed.

Gweithgareddau ym myd y Campau (Ebrill 2011 - Mehefin 2011)

Cafodd 16 disgybl o Flwyddyn 5 a 6 cael eu dewis, gan yr ysgol, i gymryd rhan yn Sports Leaders UK 'Young Leaders Award'. Mae hon yn rhaglen o hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 9 a 13 oed sy'n cynnig cefnogaeth iddynt wrth weithio gyda phlant iau, yn dysgu sgiliau arwain iddynt drwy ystod eang o gemau a gweithgareddau. Bu tîm o 16 o ddisgyblion gymryd rhan yng nghystadleuaeth y Ddawns Greadigol yn Eisteddfod yr Urdd. Cawsant lwyddiant yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir gan ennill eu ffordd i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Felindre, Abertawe. Er iddynt berfformio'n dda iawn yn y rhagbrawf yn anffodus ni chawsant symud ymlaen i ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod. Bu disgyblion, rhieni, staff a Gari Gofal, gymryd rhan mewn Bws Gerdded a drefnwyd gan Steffani a Connor, Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd Iau'r ysgol. Roedd y llwybr yn cychwyn wrth glwb rygbi Tycroes, gan arwain drwy Teglan a Derlyn ac ymlaen i'r ysgol. Bu disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn cymryd rhan mewn gŵyl TAG rygbi yn Llandeilo. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn ysgolion o glystyrau eraill ac yn chwarae'n dda iawn ac yn ennill eu gemau. Bu holl ddisgyblion CA2 yn cymryd rhan mewn Decathlon a chael profiad o'r 10 camp a chasglu pwyntiau ar gyfer eu llysoedd. Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cymryd rhan mewn twrnamaint hoci yn Rhydaman. Bu bechgyn Blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cymryd rhan mewn twrnamaint Pêl-droed yr Heddlu ym maes chwaraeon Rhydaman. Yn ystod y bore bu iddynt golli eu gemau a chawsant eu gosod yng nghystadleuaeth Y Darian. Fodd bynnag, yn ystod y prynhawn, cawsant afael arni a chael buddugoliaeth ar ôl buddugoliaeth gan guro Bro Banw ar giciau o'r smotyn ac ennill y Darian. Mae Alisha a Max, disgyblion ym Mlwyddyn 5, wedi cael eu dewis gan yr ysgol i fod yn Llysgenhadon Ifanc Efydd. Bu 10 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn Decathlon yn Ysgol Dyffryn Aman.

Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Cyfnod Allweddol 2:

Rhestrir isod ganlyniadau'r asesiad athro mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth lle ddisgwylir i ddisgyblion gyrraedd Lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Hefyd isod mae'r ffigyrau cymharol genedlaethol ar gyfer Cymru yn 2011.

		N (%)	D (%)	NCO1 (%)	NCO2 (%)	NCO3 (%)	1 (%)	2 (%)	3 (%)	4 (%)	5 (%)	6+ (%)	EL (%)
Saesneg	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.5	63.6	31.8	0.0	95.5
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.1*	*0.0*	*0.1*	*0.7*	*2.7*	*12.6*	*52.9*	*30.3*	*0.2*	*83.4*
Llafar	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.5	59.1	36.4	0.0	95.5
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.2*	*0.0*	*0.1*	*0.6*	*2.4*	*12.1*	*51.8*	*32.2*	*0.3*	*84.2*
Darllen	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.5	68.2	27.3	0.0	95.5
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.1*	*0.0*	*0.1*	*0.7*	*2.7*	*12.7*	*48.7*	*34.1*	*0.4*	*83.2*
Ysgrifennu	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	59.1	31.8	0.0	90.9
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.1*	*0.0*	*0.1*	*0.8*	*3.5*	*18.2*	*53.3*	*23.3*	*0.3*	*76.8*
Mathemateg	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	13.6	59.1	27.3	0.0	86.4
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.1*	*0.0*	*0.1*	*0.6*	*2.1*	*11.7*	*53.8*	*30.9*	*0.2*	*84.9*
Gwyddoniaeth	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	54.5	45.5	0.0	100.0
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*0.2*	*0.0*	*0.1*	*0.4*	*1.8*	*10.0*	*56.2*	*30.9*	*0.1*	*87.1*
Cymraeg fel ail iaith	Tycroes	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	27.3	54.5	13.6	0.0	4.5	18.2
	Cymru	*0.2*	*0.3*	*0.3*	*0.0*	*0.2*	*2.0*	*10.1*	*35.2*	*44.9*	*6.4*	*0.1*	*51.4*

Dangosydd Pynciau Craidd

Canran o'r disgyblion a gafodd Lefel 4 neu'n uwch mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Ysgol	**86.4%**
Cymru	***80.0%***

Cyfnod Allweddol 1:

Rhestrir isod ganlyniadau'r asesiad athro mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth lle ddisgwylir i ddisgyblion gyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1.

Hefyd isod mae'r ffigyrau cymharol genedlaethol ar gyfer Cymru yn 2011.

		N (%)	D (%)	W (%)	1 (%)	2 (%)	3 (%)	4+ (%)	EL (%)
Saesneg	Tycroes	0.0	0.0	0.0	14.8	66.7	18.5	0.0	85.2
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*3.1*	*12.5*	*61.2*	*22.9*	*	*84.1*
Llafar	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	59.3	37.0	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*2.3*	*9.5*	*61.3*	*26.6*	-	*88.0*
Darllen	Tycroes	0.0	0.0	0.0	14.8	55.6	29.6	0.0	85.2
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*3.6*	*14.1*	*53.9*	*27.9*	*0.2*	*82.0*
Ysgrifennu	Tycroes	0.0	0.0	0.0	33.3	55.6	11.1	0.0	66.7
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*4.0*	*15.5*	*65.3*	*14.9*	*	*80.2*
Mathemateg	Tycroes	0.0	0.0	0.0	11.1	81.5	7.4	0.0	88.9
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.8*	*10.1*	*64.3*	*23.7*	*	*88.0*
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg	Tycroes	0.0	0.0	0.0	11.1	81.5	7.4	0.0	88.9
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*2.1*	*15.0*	*64.1*	*18.6*	*	*82.7*
Rhif ac Algebra	Tycroes	0.0	0.0	0.0	18.5	74.1	7.4	0.0	81.5
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.8*	*11.0*	*64.5*	*22.5*	*	*87.0*
Siâp, Gofod a Mesur	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	51.9	44.4	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.7*	*9.1*	*65.2*	*23.7*	*	*88.9*

Gwyddoniaeth	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	63.0	33.3	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.5*	*7.8*	*63.4*	*27.0*	*0.0*	*90.4*
Ymholiad Gwyddonol	Tycroes	0.0	0.0	0.0	14.8	59.3	25.9	0.0	85.2
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.8*	*11.5*	*63.1*	*23.5*	*0.0*	*86.6*
Prosesau Bywyd a Phethau Byw	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	63.0	33.3	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.4*	*6.5*	*62.0*	*30.0*	*0.0*	*91.9*
Deunyddiau a'u Nodweddion	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	63.0	33.3	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.6*	*7.1*	*65.2*	*26.0*	*0.0*	*91.1*
Prosesau Ffisegol	Tycroes	0.0	0.0	0.0	3.7	63.0	33.3	0.0	96.3
	Cymru	*0.1*	*0.2*	*1.6*	*9.0*	*64.7*	*24.4*	*0.0*	*89.2*

Dangosydd Perfformiad

Canran o'r disgyblion a gafodd Lefel 2 neu'n uwch mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth:

Tycroes	**81.5%**
Cymru	***82.7%***

Presenoldeb

Gweler isod fanylion presenoldeb disgyblion yn y cyfnod Medi 2010 hyd at Orffennaf 2011:

Tymor	***Canran Presenoldeb***	***Absenoldeb Awdurdodedig***	***Absenoldeb Anawdurdodedig***
Tymor yr Hydref	91.56%	8.45%	0.01%
Tymor y Gwanwyn	93.93%	5.97%	0.10%
Tymor yr Haf	92.68%	7.18%	0.15%
CYFANSWM BLYNYDDOL	92.73%	7.19%	0.08%

Ar ddiwedd yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall yn yr ysgol,dymuna'r Corff Llywodraethol ddiolch i'r rhieni, y staff a chyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth barhaus a'u hymrwymiad, gan edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd unwaith eto yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf .

Dyddiadau'r Tymhorau

TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL- BLWYDDYN ACADEMAIDD 2011/2012
(Yn cynnwys diwrnod ychwanegol o wyliau i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines)

		Gwyliau Hanner Tymor			
Tymor	Dechrau'r Tymor	Dechrau	Diwedd	Diwedd Tymor	Dyddiau
Hydref 2011	Dydd Llun 5ed Medi	Dydd Llun 24ain Hydref	Dydd Gwener 28ain Hydref	Dydd Iau 22ain Rhagfyr	74
Gwanwyn 2012	Dydd Llun 9fed Ionawr	Dydd Llun 13eg Chwefror	Dydd Gwener 17eg Chwefror	Dydd Gwener 30ain Mawrth	55
Haf 2012	Dydd Mawrth 17eg Ebrill	Dydd Llun 4ydd Mehefin	Dydd Gwener 8fed Mehefin	Dydd Gwener 20fed Gorffennaf	63
Dyddiau HMS Penodol - Dydd Gwener, 2ail Medi 2011 Dydd Llun, 16eg Ebrill 2012					2
				Cyfanswm	194

O.N. Gwener y Groglith - 6ed Ebrill 2012 Gŵyl Fai - 7fed Mai 2012

Oriau'r Ysgol

Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1:

Bore: 9.00 a.m. - 12.00 canolddyddd
Prynhawn: 1.00 p.m. - 3.00 p.m.

Cyfnod Allweddol 2:

Bore: 9.00 a.m. - 12.05 p.m.
Prynhawn: 1.00 p.m. - 3.25 p.m.

Nifer y Disgyblion a'r Staff

Athro/Athrawes	Cyfnod	Blwyddyn	Nifer y disgyblion
Miss V. Davies	Blynyddoedd Cynnar	Dosbarth Derbyn	**24**
Mrs. N. Timothy-Davies	Cyfnod Allweddol 1	Blwyddyn 1	**14**
Mrs. R. Thomas	Cyfnod Allweddol 1	Blwyddyn 2	**24**
Mrs. W. Jones	Cyfnod Allweddol 2	Blwyddyn 3	**28**
Mrs. A. Davies	Cyfnod Allweddol 2	Blwyddyn 4	**23**
Mrs. L. Rees	Cyfnod Allweddol 2	Blwyddyn 5	**28**
Mr. R. Randel	Cyfnod Allweddol 2	Blwyddyn 6	**25**
CYFANSWM			**166**

Nodir uchod y disgyblion cofrestredig yn Ysgol Tycroes ar 2 Medi, 2011.